# CERDYN Y BLANED 2023 - 2025



Marchnad Ffermwyr Glan-yr-Afon

**Sut gall arian cyhoeddus greu cyfoeth cymunedol drwy ddefnyddio cyllid argyfwng drwy economïau lleol er budd pobl a'r blaned**

bwyd Caerdydd

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales



Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd (Llun: Anna Searle)

## Gan Bwyd Caerdydd a Synnwyr Bwyd Cymru

Mae **Bwyd Caerdydd** yn bartneriaeth o unigolion a sefydliadau ar draws y ddinas. Mae'n gweithredu fel hwb i gysylltu'r bobl a'r prosiectau sy'n gweithio i hybu bwyd iach, moesegol, sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol ledled y ddinas; mae'n gweithredu fel llais ar gyfer newid ehangach.

Mae Bwyd Caerdydd yn rhan o **Synnwyr Bwyd Cymru**, sy'n ceisio dylanwadu ar y ffordd mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'i fwyta yng Nghymru, gan sicrhau bod bwyd cynaliadwy, ffermio a physgodfeydd yn ganolog i system fwyd deg, gysylltiedig a ffyniannus.

Diolch yn fawr i'n partneriaid sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn, gan gynnwys Elusen Alexandra Rose, Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd, Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cymunedau Tyfu, Nourish Scotland, a Sustain: y gynghrair ar gyfer bwyd a ffermio gwell.

bwyd Caerdydd

CARDIFF FARMERS MARKET

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

PONTIO'R BWLCH

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# CYNNWYS


Crynodeb 4

Sut y Sefydlwyd Cerdyn y Blaned 6

Cyflwyno Cerdyn y Blaned fel Cerdyn Digidol 8

Yr Effaith 12

Y Potensial o ran Polisi 16

Y Camau Nesaf ar gyfer Cerdyn y Blaned 18

Y Camau Cyntaf tuag at Gynllun Cymru Gyfan 19




(Llun: Eleanor Church)

# CRYNODEB

Cynllun taleb a ddatblygwyd ac a dreialwyd rhwng 2023 a 2025 yw Cerdyn y Blaned. Roedd Cerdyn y Blaned yn galluogi pobl ar incwm isel yng Nghaerdydd i wario £11 yr wythnos ar ffrwythau a llysiau drwy eu prynu'n uniongyrchol gan ffermwyr organig sy'n gyfeillgar i'r blaned ym Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd.

**Mae Cerdyn y Blaned wedi cynyddu mathau o ymddygiad iach, cydlyniant cymunedol a llythrennedd bwyd i aelwydydd incwm isel.**

**Mae'r economi leol a'r amgylchedd wedi elwa ar Gerdyn y Blaned a gwelwyd cynnydd yn y gwerthiannau bwyd lleol sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur.**

**Mae Cerdyn y Blaned yn dangos y gall ymyriadau cyhoeddus i fynd i'r afael â thlodi bwyd, arwain at enillion cymdeithasol sylweddol ar fuddsoddiad, gan wella deiet, cryfhau cymunedau, cefnogi ffermio yng Nghymru a gweithredu o blaid yr hinsawdd a natur ar yr un pryd.**

## Cerdyn y Blaned: Cipolwg



Mae **120** o aelwydydd yn cymryd rhan yn y cynllun




Gwariwyd **£19,000 o dalebau Cerdyn y Blaned** gan aelodau ym Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd a aeth yn uniongyrchol i ffermwyr lleol sy'n cynhyrchu bwyd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur




Amcangyfrifir y bu **1,744** o ymweliadau â'r farchnad




Amcangyfrifir bod pob £1 o fuddsoddiad cyhoeddus, wedi'i gyfuno â £1.10 gan y rhai a oedd yn siopa wedi cynhyrchu **gwerth cymdeithasol o £8.78**



Gwariodd yr aelodau o leiaf **£1000** o'u harian eu hunain hefyd



Gwelwyd **gwelliant yn arferion iechyd** yr aelodau (bwyta mwy o ffrwythau a llysiau, bwyta llai o fwydydd llawn siwgr ac wedi'u prosesu)



Adroddodd yr aelodau fwy o ymdeimlad o **gymuned a llythrennedd bwyd**

**Cafodd Cerdyn y Blaned ei fonitro gan Pontio'r Bwlch a'i werthuso'n annibynnol gan Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd. Darllenwch yr adroddiadau gwerthuso a monitro llawn drwy sganio'r codau QR**

Pontio'r Bwlch

Gwerthusiad annibynnol


KEPPOCH ST

# SUT Y SEFYDLWYD CERDYN Y BLANED

- Wedi'i ddylunio gan gymunedau, ar gyfer cymunedau
- Arddangos arfer gorau wrth gyd-gynhyrchu
- Yn cael ei brofi, ei addasu a'i werthuso'n barhaus

**Yn 2022, roedd teuluoedd ethnig amrywiol o Butetown, Glan yr Afon a Grangetown eisiau mwy o fynediad at farchnadoedd ffermwyr a bwyd sy'n gyfeillgar i'r blaned, o ffynonellau lleol.**

Yn 2022, bu tîm Deieteg Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol i ddatblygu cynllun peilot i gefnogi teuluoedd gyda phlant ifanc i gael dewisiadau iachach. Roedd hyn yn rhan o'r Rhaglen Plant a Theuluoedd, a elwir hefyd yn PIPYN; sy'n canolbwyntio yng Nghaerdydd ar deuluoedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol rhwng 27 mis a 7 oed yn Butetown, Glan yr Afon a Grangetown. Ar draws pum grŵp ffocws gyda 40 o bobl, roedd dyhead ymysg y cyfranogwyr i gael mynediad at fwy o fwyd lleol sy'n gyfeillgar i'r blaned, gan gynnwys marchnadoedd ffermwyr.

> "Marchnad ffermwyr ar gyfer bwyd iach, ond yn anaml oherwydd mae'n ddrutach. Rwy'n defnyddio'r archfarchnad ar gyfer pethau eraill, llai organig. Dw i ddim yn mynd yn aml iawn, tuag unwaith neu ddwywaith yr wythnos"
>
> "Rwy'n ceisio mynd i'r farchnad i gael mwy o gig ffres ac organig [...] ond mae'n llawer drutach."

**Yn 2023, cynhaliodd Bwyd Caerdydd weithdy dwys gydag aelodau o'r gymuned, ffermwyr, rheolwyr marchnadoedd a deietegwyr, a fu'n gweithio i greu 'syniadau mawr' ar gyfer un neu ddau o brosiectau peilot i'w cynnal yng Nghaerdydd.**

Cafodd y gweithdy ei hwyluso gan Gwmni Buddiant Cymunedol Watch-Africa a'i ddylunio fel ffordd gyflym ac effeithiol i greu atebion i alluogi teuluoedd ar gyllideb dynn, sy'n dod o gymunedau ethnig amrywiol ac sy'n byw yng Nghaerdydd, i brynu llysiau organig wedi'u tyfu'n lleol ac mewn ffordd gynaliadwy ac sy'n ddiwylliannol briodol.

Dywedodd Carol Adams, rheolwr Marchnad Ffermwyr Caerdydd, a fynychodd y gweithdy:

> "Pan fyddwch chi mewn ystafell gyda grŵp o bobl sy'n teimlo mor angerddol am fwyd a chyfiawnder bwyd, ac yn clywed y syniadau amrywiol a'r brwdfrydedd – a bod pobl eraill yn meddwl am y pethau hyn – mae'n galonogol ac yn ysbrydoledig iawn. Mae'r syniadau a awgrymwyd heddiw hefyd yn mynd i ddod â ffermwyr, gwerthwyr, cwsmeriaid a chymunedau at ei gilydd – ac mae hynny'n gyffrous iawn."

**Un o'r syniadau oedd 'Cerdyn y Blaned' a fyddai'n cynnwys:**

- Gwobrwyo pobl am brynu bwyd lleol, tymhorol, sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd
- Elfen o brawf modd i ddarparu credyd i bobl ar incwm is
- Yr enw 'Cerdyn y Blaned' – er mwyn gwneud i bobl deimlo "fel arwr" yn hytrach na chreu stigma a gwneud i bobl deimlo cywilydd yn ei ddefnyddio










Syniad arall oedd cynllun bocsys llysiau:

- Gwerthu bocsys llysiau fforddiadwy o gnydau yn eu tymor
- Ar gael am ddisgownt i aelwydydd incwm isel mewn lleoliadau cymunedol, marchnadoedd neu siopau lleol
- Wedi'i gefnogi gan raglen o weithgareddau a gweithdai

## Yn ystod Gwanwyn 2024, cafodd prototeip Cerdyn y Blaned ei gydgynllunio a'i brofi

Yn dilyn y Gweithdy Syniadau Mawr, llwyddodd cais Bwyd Caerdydd i sicrhau cyllid o'r gronfa Pontio'r Bwlch i ddatblygu a threialu cysyniad Cerdyn y Blaned ymhellach. Daeth pump ar hugain o ddinasyddion a ffermwyr ynghyd gyda Bwyd Caerdydd a Marchnad Ffermwyr Caerdydd i ddatblygu prototeip Cerdyn y Blaned. Fel gyda'r Gweithdy Syniadau Mawr, roedd hyn wedi'i dargedu at aelwydydd incwm isel o gymunedau ethnig amrywiol.

Cerdyn papur gwerth £11 yr wythnos oedd y prototeip cychwynnol. Bwriad yr £11 yr wythnos oedd targedu'r gwahaniaeth mewn pris rhwng ffrwythau a llysiau organig ac anorganig, a chreu cynnydd bach yn nifer y ffrwythau a'r llysiau sy'n cael eu bwyta, yn hytrach na sybsideiddio bil ffrwythau a llysiau llawn aelwydydd. Amcangyfrifwyd y swm hwn drwy ddefnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar wariant wythnosol cyfartalog y 10% o aelwydydd â'r incwm isaf yn y DU ar ffrwythau a llysiau.

Fe wnaeth ugain o aelwydydd brofi'r prototeip hwn dros 6 wythnos, a chafodd eu profiad ei werthuso gan ymchwilydd MSc o Brifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste. Awgrymodd y canfyddiadau cychwynnol fod gan Gerdyn y Blaned botensial i gael effaith gadarnhaol ar arferion coginio a bwyta, fodd bynnag, roedd cyfyngiadau o ran casglu data a'r gallu i ehangu'r cynllun gyda system bapur.



**Yn dilyn y cam cychwynnol hwn, a'r gwerthusiad dilynol, datblygodd Bwyd Caerdydd y syniad a datblygu cerdyn digidol i'w dreialu gyda 120 o aelwydydd.**



**O fis Tachwedd 2024 i fis Rhagfyr 2025 cyflwynwyd Cerdyn y Blaned fel cerdyn digidol i 120 o aelwydydd.**

# CYFLWYNO CERDYN Y BLANED FEL CERDYN DIGIDOL

## Beth yw Cerdyn y Blaned?

Cynllun taleb ddigidol yw Cerdyn y Blaned lle mae gan aelodau gyfrif ble y caiff £11 o gredyd ei ychwanegu ato bob wythnos, y gellir ei gyfnewid am fwyd drwy ddangos eu cerdyn neu roi eu rhif aelodaeth wrth siopa.

Mae tystiolaeth bod cynlluniau talebau bwyd iach yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd deiet[i], er enghraifft y cynlluniau Cychwyn Iach ac Alexandra Rose, ond ar y cam cynllunio, ychydig iawn o esiamplau o dalebau oedd ar gael yn y DU a oedd hefyd yn targedu canlyniadau'n ymwneud â'r hinsawdd a natur. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ysbrydoliaeth i'w chael o dreialon Ewropeaidd a gynhaliwyd yn Ffrainc a Gwlad Belg[ii].

Roedd consensws ymhlith sefydliadau gwrthdlodi bod tlodi bwyd yn cael ei yrru gan ddiffyg incwm yn hytrach na diffyg bwyd. Mae tystiolaeth hefyd bod ymyriadau arian parod yn gyntaf ar gyfer diffyg diogeledd bwyd aelwydydd yn cynnig mwy o urddas na pharseli bwyd argyfwng[iii]. Mae Cerdyn y Blaned yn cynnig opsiwn i roi'r gorau i ddefnyddio datrysiadau dros dro a symud tuag at incwm mwy digonol, a chynyddu urddas ac annibyniaeth[iv].

> "Heb Gerdyn y Blaned, byddwn i ond yn prynu'r hyn sydd ei angen arnaf ar gyfer y prydau, ond fe wnaeth Cerdyn y Blaned fy ngalluogi i ddweud, "O, rwy'n mynd i gael bresych deiliog hefyd yr wythnos yma." **Maya, Aelod o'r cynllun Cerdyn y Blaned**

i Y Sefydliad Bwyd. Food Insecurity Tracker. https://foodfoundation.org.uk
ii BBC Future (2023) Europe's unique trials in food 'social security'. Europe's unique trials in food 'social security' - BBC Future
iii Ymddiriedolaeth Trussell (2023) Cash-first literature review. https://cms.trussell.org.uk/sites/default/files/wp-assets/Cash-first-literature-review.pdf
iv Rhwydwaith Cymorth Bwyd (2022) Why cash first? https://www.foodaidnetwork.org.uk/why-cash-first

## Y Cynnyrch – Gwytnwch

Tyfwyd yr holl ffrwythau a llysiau a brynwyd drwy Gerdyn y Blaned gan ddefnyddio egwyddorion organig (gyda'r mwyafrif helaeth wedi'u hardystio'n organig). Llywiwyd hyn hefyd gan y broses gyd-ddylunio: mynegodd y cyfranogwyr yn rhagweithiol ddyhead am fwyd organig nad yw wedi cael ei drin â phlaladdwyr. Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau ehangach yn y DU, lle y profodd marchnad bwyd a diod organig gyfan y DU dwf am y bedwaredd flwyddyn ar ddeg yn olynol yn 2025. Mae 83% o aelwydydd y DU yn prynu bwyd organig yn flynyddol, ond mae tua hanner y rhai sy'n prynu bwyd organig (42% o aelwydydd) yn gyfrifol am 95% o'r gwariant .


Mae'r adroddiad Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion hefyd yn pwysleisio manteision cynhyrchu cynnyrch garddwriaeth Organig o Gymru, gan gynnwys allyriadau carbon is, mantais bioamrywiaeth, gostyngiad mewn gweddillion plaladdwyr a mwy o swyddi ar ffermydd . Gall y mewnbynnau is sydd eu hangen ar gyfer systemau organig leihau'r ddibyniaeth hefyd ar gadwyni cyflenwi byd-eang cymhleth, sy'n gwneud defnydd dwys o danwydd ffosil.

> "Mwynhau'r llysiau, maen nhw'n fwy arbennig, yn fwy real, mae pridd arnyn nhw, mae'r ffermwr yn angerddol, maen nhw'n brin." **Nadia, aelod o'r cynllun Gerdyn y Blaned**




# 80%

**deimlo bod ganddynt fwy o ddewis**



Dywedodd 80% o aelodau'r cynllun Cerdyn y Blaned fod bod yn rhan o'r prosiect yn gwneud iddynt deimlo bod ganddynt fwy o ddewis o ran yr hyn y maent yn ei fwyta – ei fod yn cynnig math mwy urddasol o gymorth bwyd.

[v] Cymdeithas y Pridd (2026) Cash-first literature review. https://www.soilassociation.org/media/28918/soil-association-certification-organic-market-report-2026.pdf

[vi] Synnwyr Bwyd Cymru (2025) Llysiau o Gymru mewn Ysgolion 2023-2025: Adroddiad llawn. https://www.foodsensewales.org.uk/app/uploads/sites/2/2025/04/CYMWVFullReport2204.pdf

## Y Farchnad – Lleol

Dechreuodd Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd gyda Marchnad Glan yr Afon bob dydd Sul ym 1998, a ddatblygwyd gyda'r nod o ddarparu cyfle i bobl yn ardal Glan yr Afon i brynu bwyd o safon uchel, sy'n gyfeillgar i'r blaned. Mae'r fenter wedi ehangu ers hynny i gynnwys marchnad wythnosol ar ddydd Sadwrn yn Y Rhath. Mae ethos Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd, a'r ffaith eu bod yn fenter gymdeithasol, a lleoliad marchnadoedd Y Rhath a Glan yr Afon at gymunedau incwm is, yn eu gwneud yn bartner delfrydol ar gyfer treialu Cerdyn y Blaned. Gallai aelodau'r cynllun Cerdyn y Blaned ddefnyddio eu cerdyn mewn stondinau ffrwythau a llysiau penodol yn y marchnadoedd penwythnos.

Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd oedd yr unig fanwerthwr amlwg hefyd a oedd yn gwerthu ffrwythau a llysiau organig yn unig, yn hytrach na chynnyrch confensiynol a/neu wedi'u mewnforio. Er bod hyn yn ffactor a oedd yn cyfyngu ar y treial, a'i fod yn cyfyngu'r amseroedd a'r lleoliadau y gallai aelodau siopa, roedd llawer o bobl yn gwerthfawrogi'r manteision o gael patrwm, a chyfleoedd wythnosol i ryngweithio a pherthynas uniongyrchol gyda'r ffermwyr.





“Rwyf wedi bod yn anabl ers mwy na chwe blynedd, felly mae’n arferol i mi gael anawsterau i fynd allan o’r tŷ […]. Ond nawr, yr unig le y byddaf yn mynd bob dydd Sul yw’r farchnad ffermwyr […]. Mae dyddiau Sul yn ddiwrnodau hapus iawn i mi yn awr.”
**Bina, aelod y cynllun Cerdyn y Blaned**

“Mae wedi bod yn braf iawn gallu cael cyswllt gyda’r gymuned leol. Rwyf wedi bod yn byw yma ers ychydig flynyddoedd, a dyma’r un lle rwyf wedi ymweld ag ef yn rheolaidd yn fwyaf aml ac wedi dod i adnabod pobl.” **Luke, aelod o’r cynllun Cerdyn y Blaned**

## Y Bartneriaeth Bwyd Lleol – Y Glud

Bwyd Caerdydd yw Partneriaeth Bwyd Lleol y ddinas. Mae 22 Partneriaeth Bwyd Lleol yng Nghymru, un ym mhob ardal awdurdod lleol, sy’n dod â phartneriaid at ei gilydd o sectorau amrywiol i helpu i fynd i’r afael â materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, a chydweithio i sicrhau bwyd da i bawb. Sefydlwyd Bwyd Caerdydd yn 2014 ac yn 2024 dyma oedd y pedwerydd lle yn y DU i ennill Gwobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Ewch i wefan Bwyd Caerdydd i ddarllen mwy am gyflawniadau’r bartneriaeth hyd yma.

Mae Bwyd Caerdydd wedi chwarae rhan ganolog a dylanwadol iawn yn natblygiad Cerdyn y Blaned yng Nghaerdydd, gan helpu i siapio’r cynllun peilot o’r cysyniad cynnar i’r cam cyflawni. Fel Partneriaeth Bwyd Lleol y ddinas, mae Bwyd Caerdydd wedi cyfrannu arweinyddiaeth strategol a chysylltedd lleol cryf, gan sicrhau bod y cynllun wedi’i wreiddio yn uchelgeisiau ehangach Caerdydd o ran cyfiawnder bwyd, iechyd y cyhoedd a chadwyni cyflenwi lleol cynaliadwy. Mae ei gyfraniad wedi bod yn allweddol ar gyfer cynnull partneriaid, alinio’r cynllun peilot gyda blaenoriaethau lleol, arwain y broses gydgynhyrchu, sicrhau cyllid a helpu i ddatblygu’r perthnasoedd sydd eu hangen rhwng cynhyrchwyr, marchnadoedd, cymunedau a sefydliadau cymorth. Mae hyn wedi golygu nad yw Cerdyn y Blaned wedi bod yn gweithredu fel menter unigol, ond fel rhan o ddull ehangach, sy’n seiliedig ar le, i wella mynediad at fwyd da yng Nghaerdydd.

# YR EFFAITH

## Mae Cerdyn y Blaned wedi cynyddu ymddygiad iach, atgyfnerthu cydlyniant cymunedol, a gwella llythrennedd bwyd ymhlith aelwydydd incwm isel.

Mae tystiolaeth sy'n deillio o werthusiad annibynnol a gynhaliwyd gan Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd yn dangos bod Cerdyn y Blaned yn fwy na chynllun mynediad at fwyd: mae'n gweithredu fel ymyrraeth iechyd ataliol a dull o greu cymuned, gan gynyddu gwybodaeth a sgiliau bwyd ar yr un pryd.

Roedd cyfranogwyr yn cael eu cymell i ymuno gan gyfuniad o awydd i reoli cyflyrau iechyd parhaus neu wella o salwch, pwysau ariannol a fforddiadwyedd, a dyhead i fwyta'n fwy iach, yn arbennig er mwyn cefnogi llesiant eu plant. I lawer, roedd gwerth Cerdyn y Blaned yn fwy na mynediad at gynnyrch ffres. Roedd ymweliadau rheolaidd â'r farchnad yn magu hyder, yn atgyfnerthu cysylltiadau cymdeithasol, ac yn troi siopa am fwyd yn brofiad dysgu anffurfiol drwy berthnasoedd gyda'r tyfwyr a chwsmeriaid eraill.

## Roedd Cerdyn y Blaned yn creu gwerth i'r rhai a oedd yn ei dderbyn mewn sawl ffordd

| Creu ymdeimlad o gymuned | Gwneud i siopa deimlo'n bersonol, yn bleserus ac yn addysgiadol |
| --- | --- |
| Dywedodd yr aelodau eu bod yn teimlo'n fwy hyderus, yn fwy cysylltiedig ac yn llai unig. Roedd y marchnadoedd yn cael eu profi fel gofod croesawgar, lle'r oedd y cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi, yn wahanol i'r profiad anhysbys o siopa mewn archfarchnad. Roedd yr ymdeimlad hwn o berthyn yn grymuso aelodau hefyd i wneud dewisiadau bwyd iachach a mwy cynaliadwy. | Roedd argaeledd cynnyrch tymhorol yn ennyn chwilfrydedd ac yn gwneud i bobl arbrofi. Roedd y cyfranogwyr wedi blasu llysiau anghyfarwydd, cyfnewid ryseitiau ac wedi datblygu hyder i goginio prydau cartref, gan gyfrannu at lythrennedd bwyd gwell heb stigma. |
| **Datblygu gwerthfawrogiad o dyfwyr a tharddiad bwyd** | **Gwella ymddygiad iechyd** |
| Roedd sgyrsiau gyda thyfwyr yn cynyddu dealltwriaeth o sut mae bwyd yn cael ei dyfu ac yn creu gwerthfawrogiad o ffermio organig yng Nghymru. Cyfeiriwyd yn aml at ansawdd a blas y cynnyrch, a oedd yn gwneud i'r bwyd deimlo'n fwy gwerthfawr ac yn annog pobl i'w ddefnyddio yn eu prydau bwyd. | Canfu'r gwerthusiad welliannau deietegol arwyddocaol yn ystadegol. Ar gyfartaledd, roedd cyfranogwyr yn bwyta **mwy na hanner dogn ychwanegol o ffrwythau a llysiau y dydd**, roeddent yn cael sgôr uwch ar fesurau deiet iach ac yn bwyta llai o fwydydd llawn siwgr ac wedi'u prosesu. |

Gwerthusiad annibynnol



“Fe wnes i ddysgu pa ffrwythau a llysiau sydd yn eu tymor, ac yna byddwn i’n ceisio osgoi’r cynhyrchion nad oedd yn eu tymor yn yr archfarchnad oherwydd rwyf o leiaf yn gwybod bod fy merch yn bwyta’r cynnyrch cywir, y cynnyrch cywir ar yr adeg honno o’r flwyddyn.” **Maya, Aelod o’r cynllun Cerdyn y Blaned**

“Rwy’n teimlo fy mod yn gwneud lles i mi fy hun drwy fwyta bwyd da. Rwyf wedi sylwi ar newid yn fy hwyliau, fy iechyd meddwl, er gwell” **Nadja, Aelod o’r cynllun Cerdyn y Blaned**

## Mae Cerdyn y Blaned wedi bod yn fuddiol i'r economi a'r amgylchedd lleol, drwy gynyddu gwerthiannau bwyd lleol, cyfeillgar i'r hinsawdd a natur

Y tu hwnt i'w effeithiau cymdeithasol ac ar iechyd, mae Cerdyn y Blaned hefyd wedi creu buddion economaidd ac amgylcheddol, drwy ailgyfeirio gwariant ar fwyd tuag at gynhyrchwyr lleol, sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur. Drwy alluogi aelwydydd incwm isel i brynu bwyd sydd wedi'i dyfu'n gynaliadwy, mae'r prosiect wedi atgyfnerthu'r galw am fwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol, mae wedi cefnogi ffermwyr bach, ac wedi sicrhau bod mwy o werth yn cylchredeg yn yr economi leol. Mae tystiolaeth o ddata'r rhaglen Pontio'r Bwlch yn dangos bod Cerdyn y Blaned nid yn unig wedi creu buddion sylweddol ar draws iechyd a llesiant cymunedol, ond ei fod hefyd wedi creu twf economaidd a chanlyniadau amgylcheddol, sy'n dangos sut y gall ymyriadau mynediad at fwyd wedi'u targedu gyfrannu at system bwyd lleol sy'n fwy teg a gwydn.

> "Mae gennyf lawer mwy o barch tuag at ffermwyr organig yn awr, yn arbennig ar ôl sgwrsio cymaint gyda Paul. Rwy'n credu bod diffyg cysylltiad enfawr gyda bwyd yn yr archfarchnadoedd, ond rydych yn dod i ddeall y broses yn llawer gwell a sut mae'r bwyd yn cyrraedd eich bwrdd pan rydych yn gallu siarad gyda ffermwyr bob wythnos a gwrando ar eu storïau ac ati. Ac mae'n gwneud i mi deimlo'n llawer mwy diolchgar am y bwyd ac yn llawer mwy gwerthfawrogol o ble mae'n dod a'r bobl sydd wedi'i dyfu a'r teimlad o fod yn agos at eich cymuned. Dydych chi ddim yn gallu cael hynny gyda llysiau o'r archfarchnad"
> **Aria, Aelod o'r cynllun Cerdyn y Blaned**





Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd (llun M Horwood


**Mae gwaith modelu economaidd gan Brifysgol Portsmouth a'r Ganolfan Ymchwil Organig ar naw cynllun peilot Pontio'r Bwlch, ynghyd â llenyddiaeth gyhoeddus yn amcangyfrif, bod pob £1 o fuddsoddiad cyhoeddus sy'n cael ei gyfuno â £1.10 gan gwsmeriaid yn cynhyrchu:**




**£3.11**
mewn iechyd gwell



**£3.94**
mewn cymunedau cryfach



**£1.44**
mewn twf economaidd lleol



**29p**
mewn manteision hinsawdd a natur

**Gan greu cyfanswm o £8.78 mewn gwerth cymdeithasol**[vii]

---

vii Sustain (2025) Bridging the Gap: How to fix the food system for everyone. https://www.sustainweb.org/reports/dec25-bridging-the-gap-how-to-fix-the-food-system-for-everyone

# Y POTENSIAL O RAN POLISI

**Mae cynllun peilot Cerdyn y Blaned yn dangos sut y gallai ymyriadau cyhoeddus i fynd i'r afael â thlodi bwyd greu enillion cymdeithasol sylweddol ar fuddsoddiad, a gwella deiet, cryfhau cymunedau, cefnogi ffermwyr Cymru a chyflawni ar gyfer yr hinsawdd a natur ar yr un pryd.**

## Mae diogeledd bwyd i aelwydydd yng Nghymru yn ddibynnol ar fforddiadwyedd ac argaeledd deiet iach ac mae elfennau lleol, cenedlaethol a byd-eang ynghlwm â hyn.

Mae rhybuddion llym ynglŷn â chyflwr ein system fwyd fyd-eang yn sgil ffactorau geo-wleidyddol ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, fel yr amlinellir yn adroddiad y Comisiwn Parodrwydd Cenedlaethol: Just in Case: 7 steps to narrow the UK civil food resilience gap[viii]

Yn y tymor byr i ganolig, gallai'r ffactorau hyn effeithio ar argaeledd rhai mathau o fwyd. Fodd bynnag, yr effaith sylweddol sy'n cael ei theimlo yn awr yw cynnydd yng nghost bwyd. Rhwng mis Ionawr 2020 a mis Gorffennaf 2025, cynyddodd prisiau bwyd a diodydd dialcohol 37%, o gymharu â chynnydd o 28% mewn chwyddiant cyffredinol[ix].

## Mae'r bwlch rhwng y cynnydd mewn costau bwyd a thwf cyflogau wedi gosod baich anghymesur ar aelwydydd incwm isel.

Mae anghydraddoldeb clir yng nghyfran yr incwm gwario y mae'n rhaid i grwpiau incwm gwahanol ei wario er mwyn gallu fforddio dilyn y Canllaw Bwyta'n Dda, gyda'r aelwydydd yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf ond angen gwario 11% o'i gymharu â'r pumed â'r amddifadedd difreintiedig, sydd angen gwario 45% o'u hincwm gwario (ar ôl costau tai)[x]. Nid yw diffyg diogeledd bwyd yn effeithio'n gyfartal ar bob grŵp, gyda rhai cymunedau'n wynebu risg anghymesur, gan gynnwys aelwydydd gyda phlant, grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn ac aelwydydd gydag oedolion sydd wedi'u cyfyngu gan anableddau. Mae hyn yn cael sgil-effaith ar iechyd deietegol: ym Mehefin 2025, dywedodd hanner yr aelwydydd a oedd yn wynebu diffyg diogeledd bwyd eu bod yn prynu llai o lysiau ac roedd dwy ran o dair yn prynu llai o ffrwythau[xi].

## Mae bwyd sy'n dda i bobl, y blaned ac economi Cymru yn costio mwy na bwyd nad yw'n dda.

Ar hyn o bryd, mae aelwydydd yng Nghymru yn dueddol o wynebu costau ychwanegol os ydynt eisiau bwyta bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n organig[xii]: mae bwyd heb ei drin â phlaladdwyr synthetig yn cefnogi natur, yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn cefnogi economïau lleol. Mae archfarchnadoedd yn codi prisiau premiwm am gynnyrch organig: yn 2025 roedd gan gynnyrch organig bremiwm cyfartalog o 27% wrth gât y fferm, ond roedd hyn yn cynyddu i bremiwm cyfartalog o 70% fel Pris Argymhellol y Manwerthwr. Mae bwydydd iachach hefyd fwy na dwywaith yn ddrutach fesul calori o gymharu â bwydydd llai iach, ac mae pris bwydydd iachach wedi cynyddu ddwywaith yn gyflymach yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf[xiii].

## Nid yw ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig ag ansefydlogrwydd byd-eang a'r newid yn yr hinsawdd wedi'u hadlewyrchu mewn prisiau bwyd.

Nid yw prisiau bwyd yn adlewyrchu costau cynhyrchu cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

---

[viii] Y Comisiwn Parodrwydd Cenedlaethol (2024) Just in case: 7 steps to narrow the UK civil food resilience gap. https://nationalpreparednesscommission.uk/publications/just-in-case-7-steps-to-narrow-the-uk-civil-food-resilience-gap/

[ix] Y Ffederasiwn Bwyd a Diod (2024) Inflation reforecast. https://www.fdf.org.uk/globalassets/resources/publications/reports/fdf-inflation-reforecast.pdf

[x] Y Sefydliad Bwyd (2025) The Broken Plate Report 2025. https://foodfoundation.org.uk/publication/broken-plate-2025

[xi] Y Sefydliad Bwyd. Food Insecurity Tracker. https://foodfoundation.org.uk

[xii] DJ's Research (2022) Organic food is more expensive than non-organic, survey finds. https://djsresearch.co.uk/insights/organic-food-is-more-expensive-than-non-organic-survey-finds-02

[xiii] Y Sefydliad Bwyd (2023) Dietary inequalities worsened over the last two years as healthier foods grew more expensive. https://foodfoundation.org.uk/press-release/dietary-inequalities-worsened-last-two-years-healthier-foods-grew-more-expensive

Mae systemau bwyd confensiynol yn allanoli costau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth, llygredd dŵr ac effeithiau cymdeithasol, sy'n golygu bod y costau hyn yn cael eu talu gan gymdeithas yn hytrach na'u hymgorffori yn y pris a delir pan gânt eu prynu[xiv].

Mae'r costau hyn, sydd heb eu cyfrif, hefyd yn cynyddu'r amlygiad i anwadalrwydd prisiau. Mae systemau organig yn gwahardd defnyddio gwrteithiau artiffisial synthetig: proses sy'n ddibynnol ar danwydd ffosil sy'n defnyddio 3-5% o'r holl nwy naturiol byd-eang ac sy'n cael ei fewnforio'n bennaf drwy gadwyni cyflenwi cymhleth, rhyngwladol. Argyfwng llongau'r Gwlff yn 2026 yw'r enghraifft ddiweddaraf o darfu ar gyflenwadau gwrtaith[xvi].

## Dylai a gallai arian cyhoeddus sy'n cael ei wario drwy bolisïau a mentrau Llywodraeth Cymru i wella sicrwydd bwyd aelwydydd greu budd i gymunedau, yr hinsawdd a natur

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymdrechion i gefnogi dulliau arian parod yn gyntaf ac i helpu aelwydydd i wneud y gorau o'u harian drwy'r Strategaeth Tlodi Plant. Rhwng 2019 a 2024 dyrannwyd £26.5 miliwn i fynd i'r afael â thlodi bwyd[xvii] sy'n cynnwys cyllid Cymorth Bwyd Uniongyrchol / Cymorth Argyfwng Bwyd sy'n cael ei ddosbarthu drwy awdurdodau lleol i sefydliadau cymunedol a banciau bwyd. Mae llawer o'r mentrau sy'n cael eu hariannu drwy'r cynlluniau hyn yn cynhyrchu gwerth cymdeithasol drwy gyfleoedd gwirfoddoli, lleihau gwastraff bwyd a chynyddu cysylltiadau cymunedol; ond lle mae bwyd yn cael ei brynu mae'n aml o fudd i fanwerthwyr mawr yn y DU a chwmnïau bwyd rhyngwladol. Mae rhoddion bwyd dros ben hefyd yn cefnogi proffidioldeb yr archfarchnadoedd mawr[xviii], heb fod yn addas bob amser i ddosbarthu'r bwyd yn y gymuned[xix].

Mae'r buddsoddiad mewn Partneriaethau Bwyd Lleol drwy'r Strategaeth Tlodi Plant a'r Strategaeth Bwyd Cymunedol wedi bod yn gam arwyddocaol at greu dull gweithredu cynaliadwy, mwy ataliol; fel y cynlluniau i gyflawni potensial y plât cyhoeddus, er enghraifft Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion. Fel y nodwyd mewn adroddiadau Seneddol diweddar gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig[xx] a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol[xxi], mae angen gwneud mwy i ehangu'r enghreifftiau o arfer gorau.

## Er mwyn galluogi aelwydydd i fforddio bwyd iach ac sy'n gyfeillgar i'r blaned, sy'n cefnogi'r economi leol, mae Synnwyr Bwyd Cymru a Bwyd Caerdydd yn argymell y dylai:

1. Bwyd Caerdydd ymestyn ac ehangu'r cynllun Cerdyn y Blaned
2. Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, drwy Bartneriaethau Bwyd Lleol, gydweithio i gyflwyno Cynllun Talebau Ffrwythau a Llysiau Organig o Gymru ar gyfer aelwydydd incwm isel

## I hwyluso'r uchelgais hwn, mae Synnwyr Bwyd Cymru a Bwyd Caerdydd hefyd yn argymell y dylai:

1. Llywodraeth Cymru gynhyrchu cynllun garddwriaeth uchelgeisiol i dyfu ffrwythau a llysiau organig a chynhyrchu codlysiau.
2. Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus gefnogi ehangu seilwaith manwerthu bwyd lleol a chymunedol fel marchnadoedd ffermwyr, hybiau bwyd cymunedol a siopau llysiau annibynnol, er mwyn cysylltu defnyddwyr yn well â chynhyrchwyr ar raddfa fach a chyda'i gilydd.

---

[xiv] Sefydliad Bwyd ac Amaeth: Allanoldebau prisiau bwyd
[xv] Cymdeithas y Pridd (2023) Organic is better for the planet. Organic is better for the planet | Soil Association
[xvi] Guardian (2024) 'A big burden for farmers': Gulf shipping crisis threatens food price shock. 'A big burden for farmers': Gulf shipping crisis threatens food price shock | Supply chain crisis | The Guardian
[xvii] Llywodraeth Cymru (2024) Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid ar gyfer Mynd i'r Afael â Thlodi Bwyd, 17 Rhagfyr.
[xviii] Prifysgol Portsmouth (2024) New research reveals the £78 billion hidden cost of managing unsold and surplus food. https://www.port.ac.uk/news-events-and-blogs/news/new-research-reveals-the-ps78-billion-hidden-cost-of-managing-unsold-and-surplus-food
[xix] FoodRISE (2025) UsedBy: How businesses dump their waste on food charities. https://foodrise.org.uk/wp-content/uploads/2025/03/Feedback-UsedBy-Feb25-HighRes.pdf
[xx] Llywodraeth Cymru (2023) Cywain y cynhaeaf: Cefnogi diwydiant prosesu bwyd Cymru. Cywain y cynhaeaf: Cefnogi diwydiant prosesu bwyd Cymru
[xxi] Llywodraeth Cymru (2022) Mynediad at fwyd iach, maethlon a fforddiadwy. Mynediad at fwyd iach, maethlon a fforddiadwy

# Y CAMAU NESAF AR GYFER CERDYN Y BLANED

**Mae gwerthusiad Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd yn darparu arweiniad clir ar gyfer cryfhau ac ehangu'r cynllun Cerdyn y Blaned ar gyfer cyfranogwyr yn lleol, gan fuddsoddi mewn seilwaith bwyd cymunedol a thyfu digon o fwyd sy'n gyfeillgar i'r blaned i gyfateb â galw'r prosiect. Dylai datblygiadau yn y dyfodol adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, a mynd i'r afael â rhwystrau ymarferol at gyfranogiad a nodwyd drwy waith gwerthuso.**

## 1. Ehangu mynediad er mwyn i fwy o aelwydydd sydd wedi'u targedu elwa

Datblygu llwybr cyfeirio clir a strwythuredig, gan weithio gyda gwasanaethau'r cyngor, darparwyr iechyd a sefydliadau cymunedol i sicrhau bod Cerdyn y Blaned yn cyrraedd yr aelwydydd sy'n fwyaf tebygol o elwa

Datblygu platfform y gellir ei ehangu ar gyfer Cerdyn y Blaned digidol.

Nodi cyfleoedd cyllido er mwyn darparu cefnogaeth sefydlog i sicrhau bod y prosiect yn gwireddu buddion llawn Cerdyn y Blaned ledled y ddinas, ac fel rhan o hyn, ymgorffori'r hyn a ddysgwyd i strategaethau ehangach ar lefel y ddinas, a chefnogi dulliau mwy integredig ac ataliol, yn hytrach nac ymyriadau annibynnol.

## 2. Cynyddu'r nifer o farchnadoedd ffermwyr ac ehangu i fodelau amgen

Nodi lleoliad newydd ar gyfer cynnal Marchnad Ffermwyr Caerdydd yn rheolaidd, yn ddelfrydol mewn cymuned heb ddigon o siopau manwerthu bwyd.

Cynyddu mynediad y tu hwnt i'r marchnadoedd ffermwyr. Er bod y marchnadoedd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr oherwydd eu cysylltiad cymunedol a llythrennedd bwyd, a byddwn yn parhau i elwa ar y buddion hyn yn y lleoliad hwn, amlygodd y gwerthusiad y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag amseroedd agor sefydledig, pellter teithio, dibyniaeth ar y tywydd a'r angen i drefnu ymweliadau o amgylch gwaith, cyfrifoldebau gofalu neu salwch – sy'n cyfrannu at y ffaith bod angen i ni ehangu y tu hwnt i'r model marchnad ffermwyr yn unig.

Ymgorffori llwybrau mynediad mwy hyblyg a chynhwysol, wrth ddiogelu cryfderau craidd Cerdyn y Blaned ac ystyried lleoliadau sy'n parhau i gynnal cysylltiad gyda tharddiad bwyd a'r profiad dysgu. Mae hyn yn gwneud Cerdyn y Blaned yn wahanol i siopa mewn archfarchnad ac mae'n ategu ei effeithiau ar ddeiet, llesiant a newid arferion yn yr hirdymor.

## 3. Cryfhau cyflenwad lleol

Mae cyfyngiadau cyflenwi yn parhau i fod yn her, yn arbennig o ystyried graddfa gyfyngedig cynhyrchiant garddwriaethol ac organig yng Nghymru. Bydd atgyfnerthu cydgysylltiad gyda thyfwyr, Partneriaethau Bwyd Lleol a mentrau cyflenwi rhanbarthol yn hanfodol er mwyn ehangu mynediad, cefnogi cynhyrchwyr lleol a sicrhau bod twf y prosiect yn parhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol.



Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd (Llun: Eleanor Church)



Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd (Llun: M Horwood

# Y CAMAU CYNTAF TUAG AT GYNLLUN CYMRU GYFAN

## 1. Cydnabod y dystiolaeth gynyddol o blaid cynlluniau o'r fath

Yn ogystal â'r dystiolaeth ar gynllun Cerdyn y Blaned gan Brifysgol Caerdydd ac ar draws cynlluniau peilot Pontio'r Bwlch, mae treialon llwyddiannus wedi'u cynnal yng Nghanada[xxii], yr Unol Daleithiau[xxiii], Awstralia[xxiv] a gwledydd eraill. Mae'r Ganolfan Ymchwil Organig hefyd wedi modelu ymyriadau sy'n seiliedig ar dalebau ar ran Pontio'r Bwlch.

Mae yna gefnogaeth gychwynnol hefyd eisoes i'r cysyniad o gyflwyno cynlluniau talebau ffrwythau a llysiau yng Nghymru. Yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 , roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn argymell: *"Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio i gyflwyno cynllun talebau ffrwythau a llysiau ffres Cymreig ar gyfer aelwydydd incwm isel, gan helpu teuluoedd i fforddio bwyd maethlon tra'n cefnogi tyfwyr bwyd lleol".* Ymatebodd 43% o Gyrff Cyhoeddus Cymru yn gadarnhaol i'r argymhelliad hwn, ac roedd 17% arall yn awyddus i weld gwybodaeth bellach er mwyn gallu ymateb. Dim ond un corff cyhoeddus (a oedd yn cynrychioli 2%) a wrthododd yr argymhelliad[xxvi].

## 2. Gweithio gyda Phartneriaethau Bwyd Lleol i ddylunio, treialu ac ehangu cynlluniau talebau mewn gwahanol leoliadau

Mae yna Bartneriaeth Bwyd Lleol ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru, wedi'u cefnogi gan gydlynydd ymroddedig. Mae'r Partneriaethau Bwyd Lleol yn dod â rhanddeiliaid ar draws y system fwyd ynghyd, gan gynnwys ffermwyr a thyfwyr, busnesau bwyd, grwpiau cymunedol, cyrff cyhoeddus, academyddion a dinasyddion. Mae hyn yn eu gwneud yn ddull delfrydol o gydlynu treialon cynllun talebau.

Yn ogystal â Cherdyn y Blaned Caerdydd, mae Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent eisoes wedi treialu cynllun talebau siopau ffrwythau a llysiau llysiau lleol[xxvii] ac mae Bwyd Powys wedi treialu cynllun bocsys llysiau, gyda'r ddwy bartneriaeth yn gweithio gyda lleoliadau Dechrau'n Deg. Cafodd y rhain eu hariannu drwy'r Grantiau Bach Partneriaethau Bwyd Lleol fel rhan o Strategaeth Bwyd

xxii Llywodraeth Cymru (2024) Feeding People, Feeding Communities: An evaluation of the 2023 Nourishing Communities Food Coupon Program. Feeding People, Feeding Communities: An Evaluation of the 2023 Nourishing Communities Food Coupon Program

xxiii Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a Maeth yr Unol Daleithiau (2023) WIC Farmers Market Nutrition Program. WIC Farmers Market Nutrition Program | Food and Nutrition Service

xxiv Bendigo Foodshare (2023) Good Food For All voucher program. Good Food For All Voucher Program - Bendigo Foodshare

xxv Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2025) Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025. https://futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethaur-dyfodol-cymru/adroddiad-cenedlaethaur-dyfodol-2025/

xxvi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2025) Ymateb cyrff cyhoeddus i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. https://futuregenerations.wales/cym/wp-content/uploads/sites/2/2026/03/Ymatebion-Cyrff-Cyhoeddus-i-Adroddiad-CD.pdf

xxvii Senedd Cymru, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol (2026) Rhywbeth i gnoi cil drosto: Cynyddu mynediad at fwyd iach, maethlon a fforddiadwy. cr-ld18034-cy.pdf

Cymunedol Llywodraeth Cymru[xxviii]. Byddai'n bosibl ehangu'r rhain a'u hariannu gan ddefnyddio unrhyw gyllid Cymorth Argyfwng Bwyd sydd ar gael, gydag unrhyw gyllid y Strategaeth Bwyd Cymunedol yn y dyfodol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad cynllun talebau mewn lleoliadau ychwanegol.

### 3. Cysylltu'r treialon hyn gyda mentrau presennol i ehangu'r sector garddwriaeth

Un rheswm pam nad yw'r cynlluniau talebau presennol yn y DU yn gallu cyflawni'r buddion amgylcheddol ac economaidd yn llawn, yn ogystal â'r buddion iechyd, yw oherwydd y diffyg cyflenwad organig. Fodd bynnag, mae ymdrechion yng Nghymru i gynyddu hyn. Mae Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn gweithio gydag 20 o fentrau garddwriaeth organig yng Nghymru. Mae llawer o'r Partneriaethau Bwyd Lleol yn cydweithio i ddatblygu cylchoedd peiriannau i gefnogi ehangiad garddwriaethol. Dylid defnyddio'r rhain i sicrhau bod ffrwythau a llysiau organig yn cael eu cyflenwi drwy gynlluniau talebau, er mwyn creu'r manteision mwyaf, fel y dangoswyd yn gynharach yn yr adroddiad.

### 4. Defnyddio'r canlyniadau hyn i ddatblygu gwerthusiad o opsiynau a modelu ar gyfer cynllun Cymru gyfan

Dylai hyn grynhoi'r dystiolaeth sydd ar gael o'r treialon a gwaith ymchwil academaidd ehangach a modelu gwahanol gyfuniadau o gymhwysedd, graddfa, gwerth talebau, seilwaith cyflenwi, symud a gwerthuso. Dylai ystyried partneriaethau posibl gyda sefydliadau sydd â phrofiad o gyflenwi cynlluniau talebau, er enghraifft Alexandra Rose.

Dylai'r gwerthusiad hefyd ystyried y llwybr integreiddio polisi a dulliau ariannu, gan gynnwys opsiynau i grynhoi cyllidebau rhwng adrannau'r Llywodraeth er mwyn cydnabod y manteision trawsbynciol ar draws y portffolios iechyd, tlodi, yr hinsawdd a'r economi.

Gallai'r gwaith hwn ffurfio rhan o'r adolygiad cenedlaethol o'r cynllun Cychwyn Iach, fel yr ymrwymwyd gan Pwysau Iach: Cymru Iach Cynllun Cyflawni 2025-27 ; neu weithredu ochr yn ochr â hyn.



[xxviii] Llywodraeth Cymru (2024) Dyfarnu Grantiau i Bartneriaethau Bwyd Lleol drwy'r Strategaeth Bwyd Cymunedol. Dyfarnu Grantiau i Bartneriaethau Bwyd Lleol drwy Strategaeth Bwyd Cymunedol Llywodraeth Cymru - synnwyrbwydcymru.org.uk

[xxix] Llywodraeth Cymru (2025) Pwysau Iach: Cymru Iach cynllun cyflawni 2025 i 2027. Caerdydd Pwysau Iach: Cymru Iach cynllun cyflawni 2025 i 2027 [HTML] | LLYW.CYMRU

**Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Bwyd Caerdydd a gwefan Synnwyr Bwyd Cymru neu os oes gennych gwestiynau pellach am yr adroddiad hwn yn benodol, cysylltwch â foodsensewales@wales.nhs.uk**